**Adroddiad i:** **Cyngor Llawn**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **Dydd Mawrth 9 Ebrill 2013**

**Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cynghorydd Barbara Smith**

**Awdur yr Adroddiad:** **Linda Atkin, Pennaeth Adnoddau Dynol**

**Teitl: Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol**

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Ysgrifennwyd yr adroddiad i nodi'r newidiadau a wnaed yn ein polisïau a'n gweithdrefnau Adnoddau Dynol presennol er mwyn cydymffurfio â newidiadau mewn deddfwriaeth ac ymarfer gorau. Ysgrifennwyd y polisïau a'r gweithdrefnau i roi arweiniad cynhwysfawr i reolwyr ynghylch sut i ymdrin â Recriwtio a Dewis, Darparu Geirda Cyflogaeth, Secondiadau a Gweithwyr Asiantaeth o fewn y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Cael cytundeb i fabwysiadu'r dogfennau canlynol fel polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor:

- Recriwtio a Dewis
- Rhoi Geirda Cyflogaeth
- Secondiad
- Gweithdrefn Gweithwyr Asiantaeth

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn ac yn mabwysiadu'r polisïau a'r gweithdrefnau newydd a diwygiedig.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r dogfennau uchod wedi'u hadolygu'n unol â newidiadau deddfwriaeth ac ymarfer gorau gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a'r argymhellion a wnaed gan y rheolwyr. Mae'r dogfennau wedi'u hail ffurfio mewn ffurf symlach er mwyn eu gwneud yn haws i'w defnyddio ac yn fwy hygyrch trwy'r fewnrwyd.

Gweler atodiadau 1 - 4 ble mae newidiadau polisi a gweithdrefn wedi'u llachar liwio.

Oherwydd hyd a nifer y dogfennau i'w hystyried, nid yw copïau o'r rhain wedi'u darparu mewn copi caled. Fodd bynnag, bydd y rhain ar gael i aelodau'n electronig a bydd copïau ar gael ar ddiwrnod y cyfarfod. Yn y cyfamser, os bydd angen copi cysylltwch â Gemma Hillier ar 01824 706200.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd cytuno a gweithredu polisiau a gweithdrefnau'n galluogi'r Cyngor i recriwtio a chadw gweithwyr sy'n addas er mwyn cyfrannu at, a chyrraedd, y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni fydd costau ychwanegol gyda'r cytundeb na'i weithredu.

Bydd yn effeithio ar bob gwasanaeth o fewn y Cyngor gan y bydd angen cydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau i leihau unrhyw risg.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel atodiad wrth yr adroddiad

Mae wedi'i nodi y bydd yn rhaid i reolwyr, wrth recriwtio, ystyried yr effaith ar nodweddion gwarchodedig wrth gyfiawnhau recriwtio. Bydd gofyn i reolwyr, wrth recriwtio, sicrhau fod bob ymgeisydd, gan gynnwys y rhai gyda nodweddion gwarchodedig, yn gallu mynd i ble y cynhelir cyfweliadau. Hefyd, bydd angen i reolwyr wrth recriwtio sicrhau, os bydd ymgeisydd wedi hysbysu'r Cyngor y bydd newidiadau rhesymol er mwyn gallu bod yn bresennol yn y cyfweliadau, bod yna weithredu ar hynny. Er enghraifft, dolenni clyw, mynediad i gadair olwyn ac amser ychwanegol ar gyfer profion. Pan fydd angen defnyddio canolfannau Asesu, bydd yn rhaid i reolwyr sicrhau fod yr offer priodol ar gael a'i fod yn addas ar gyfer pob ymgeisydd. Os defnyddir ymgynghorwyr allanol yn ystod y broses, bydd angen sicrhau fod yr holl nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried.

Dylai'r cyngor sicrhau fod o leiaf un aelod o'r panel recriwtio wedi mynychu hyfforddiant cydraddoldeb yn unol â'r polisi. Bydd yn rhaid i Adnoddau Dynol darparu hyfforddiant gloywi i reolwyr a hyfforddiant ar gyfer rheolwyr newydd ynghylch sut i ddefnyddio'r polisi a'r weithdrefn.

Bydd y polisi a'r weithdrefn ar gael ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl gofyn am y rhain ar ffurfiau eraill.

Bydd gofyn i ni nodi sut y cefnogir dilyniant merched.

Bydd angen i Adnoddau Dynol monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi newydd ar ôl ei weithredu.

Gweler atodiadau 5 – 8 am yr Adroddiadau Asesu Effaith Cydraddoldeb.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gydag Archwilio ac eraill?

Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau wedi'u dosbarthu i ymgynghori gyda'r Uwch Dî m Arweinyddiaeth y Cyngor a'r Undebau Llafur cydnabyddedig. Mae sylwadau a gweithrediadau o'r ymgynghoriad yn yr atodiadau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Does dim goblygiadau cost arwyddocaol yn codi o'r newidiadau arfaethedig i'r polisiau. Mewn rhai achosion mae’r polisiau wedi’u diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth ac ymarfer cyfredol, er enghraifft mewn perthynas â rheoliadau gweithwyr asiantaeth, felly ni fydd ffurfioli’r newidiadau’n bolisi ynddo’i hunan yn creu costau ychwanegol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Bydd angen i’r cyngor sicrhau fod o leiaf un aelod o’r panel recriwtio wedi mynychu hyfforddiant cydraddoldeb yn ôl y polisi.

## 11. Yr Hawl i Benderfynu

Nid yw hyn yn berthnasol.